**Swydd:** ***CYNORTHWYYDD CYFFREDINOL***

**Adran:** **CAFFI BAR GALERI**
**Yn atebol i:** **RHEOLWR/ARWEINYDD SHIFFT AR DDYLETSWYDD /TÎM RHEOLI GALERI**

---

**Cyflog:** **Cyfradd uwch na'r isafswm cyflog Cenedlaethol**
**Oriau:** **Cytundebau hyd at 40 awr yr wythnos ar gael (sydd yn cynnwys gweithio gyda'r nosau/ penwythnosau/ rhai gwyliau banc yn unol â'r ROTA)**
**Croesewir hefyd ceisiadau ar gyfer gweithwyr achlysurol (dim cytundeb)**

**Am sgwrs bellach am y swydd hon, cysylltwch â:**

Naomi Saunders
01286 685 241 Naomi.Saunders@galericaernarfon.com

**Fel cyflogwr rydym yn hyrwyddo cyfle cyfartal. Croesweir ceisiadau o bob rhan o gymdeithas er mwyn adlewyrchu'r ddemograffeg leol ac ehangach yn fanwl gywir, a thrwy hynny ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth.**

---

*Ydy'r diddordeb, yr egni a'r agwedd iawn gennych i fod yn ran allweddol o'n Tîm ni yn Galeri ? Rydym yn gyfrifol am roi gwasanaeth rhagorol i'n cwsmeriaid mewn lleoliad arbennig , awyrgylch amrywiol, diddorol a phrysur.*

**Prif bwrpas y Swydd:**
I gynorthwyo gyda holl drefniadaeth Bar / Caffi a Sinema Galeri ac i roi gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid

I gynorthwyo gyda cyflenwi dros dro yn ystod cyfnodau gwyliau/ salwch ayyb

I sicrhau safon ac ansawdd gwasanaeth o'r safon uchaf pob amser

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:**

- Cyflwyno ei hun am ddyletswydd yn brydlon, mewn cyflwr glan a hylan, ac i wisgo'r wisg unffurf a bathodyn enw drwy'r amser tra ar ddyletswydd

- I gynorthwyo'r Rheolwr a'r Arweinydd shifft i sicrhau gwasanaeth o'r safon uchaf yn gyson

- I sefydlu agwedd cwrtais, proffesiynnol a chyfeillgar tuag at gwsmeriaid a staff y gyfundrefn

- Cymryd rhan gorfforol i gymryd archebion wrth y byrddau / gwasanaethu diodydd yn unol â'r archebion, sicrhau bod gofynnion y cwsmer yn cael ei cyflawni a bod cynnwys yr archeb yn gywir pob amser

- I gael gwybodaeth trylwyr o be da ni'n ei gynnig o'r Gegin a sicrhau ymwybyddiaeth cyn cychwyn shifft

- I gael ymwybyddiaeth o anghenion dietegol amrywiol er mwyn argymell i gwsmeriaid beth sy'n addas

- I fod yn flaenweithgar i uchafu gwerthiant a chynhyrchu elw

- I gael ymwybyddiaeth parhaol o beth sy'n digwydd yn yr adeilad o ddydd i ddydd

- I gymeryd cyfrfioldeb personol i jecio'r 'Rota' gwaith wythnosol a cynefino eu hunain

- Bod yn ragweithiol i adnabod ddiffyg / prinder stoc a gwneud yn siwr bod archebion yn cael eu gwneud

- Sicrhau bod na stoc addas o bopeth yn weledol i'r cwsmer pob amser

- Bod yn rhagweithiol i gadw byrddau tu mewn i'r caffi, yn y Bar a thu allan i'r adeilad yn glir, glan a barod am wasanaeth pob amser

- Sicrhau safon glendid enghreifftiol yn y caffi, y Bar, y sinema a'r ardaloedd cysylltiedig yn reolaidd

- Gosod llestri a chynhwysion ar gyfer gofynnion arlwyo mewn ystafelloedd cyfarfod a gwneud yn siwr bod archebion yn barod ar amser i'r ystafelloedd yma- yn yr un modd, sicrhau bod llestri/ unrhyw fwydydd yn cael eu clirio yn brydlon a rheolaidd

- Cyn gorffen shifft, sicrhau bod pob tasg wedi'i gyflawni a bod yr ardaloedd gwaith/lloriau/offer yn lan ag yn daclus

- I gynorthwyo yn y gegin efo dyletswyddau megis darparu cynhwysion ac archebion bwyd / golchi llestri / glanhau cyffredinol

- Ymateb yn dawel a chyfeillgar i unrhyw gwynion gan gwsmeriaid, ac ymateb/adrodd yn syth at y Rheolwr/ Arweinydd shifft

- Adrodd unrhyw ddifrod, boed o'n ddifrod i lestri, offer neu ddodrefn yn syth i'r Rheolwr/Arweinydd Shifft

- Dilyn dulliau gweithio diogel pob amser fel maent wedi eu amlinellu ym mholisi Iechyd a Diogelwch y Cwmni ac i fod yn gyfarwydd â'r dull gweithredu mewn argyfwn tân neu ddamwain

- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n rhesymol i'r Rheolwr / Arweinydd Shifft ofyn ohonoch

- Cydymffurfio gyda safonnau, telerau ac amodau Glendid Bwyd a chyflawni unrhyw Hyfforddiant perthnasol â hynny

- Cydymffurfio gyda safonnau, telerau a amodau a osodir yn Llawlyfr Staff y Cwmni

**Cymhwyseddau Ymddygiad / Sgiliau**

Sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol

Sgiliau gwaith tîm a chyfathrebu rhagorol

Dibynadwy a brwdfrydig

Y gallu i gadw'n dawel ac effeithiol o dan bwysau

Profiad mewn gwasanaethu bwyd a diodydd

Sgiliau trefnu amser

Y gallu i gysylltu â phob lefel o staff / cwsmeriaid

Cyfathrebu yn y Gymraeg

**Dymunol:**

Cymhwyster Glendid Bwyd

Ebrill 2024

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
Cyngor Gwynedd Council